

# **Cyngor Sir Ynys Môn**

## **Polisi Asesu Risg**

### **Fersiwn 1.0 Chwefror 2016**

#### **Am y polisi hwn**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ei ddyletswydd i ddarparu amgylchedd gweithio diogel dan delerau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith ac ati 1974. Mae'r Ddeddf honno, ynghyd â'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n codi ohoni, yn dweud bod rhaid cynnal asesiad addas a digonol o risg. Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion asesu penodol dan y rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1999 (a elwir yn Rheoliadau Rheoli o hyn ymlaen) a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Oherwydd eu natur eang, gall y dyletswyddau dan y Rheoliadau Rheoli orgyffwrdd gyda rheoliadau eraill. Os oes gorgyffwrdd o'r fath, bydd cydymffurfio gyda'r rheoliadau mwy penodol fel arfer yn ddigon i gydymffurfio gydag unrhyw ddyletswydd gyfatebol yn y Rheoliadau Rheoli e.e. yn unol â'r rheoliadau COSHH, mae'n rhaid cynnal asesiadau os oes risg i iechyd o fod yn agored i sylweddau arbennig. Ni fyddai'n rhaid ailadrodd asesiad o'r fath wedyn i bwrpas y Rheoliadau Rheoli.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

## Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Chwefror 2015	Diweddariad templed
1.0	Mai 2017	Dim newidiadau
1.0	Ebrill 2018	Dim newidiadau
1.0	Ebrill 2019	Dim newidiadau
1.0	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Ebrill 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Tim Iechyd a Diogelwch

### Manylion cyswllt:

Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ([lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk](mailto:lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk))

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Cynnwys

## 1. Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ei ddyletswydd i ddarparu amgylchedd gweithio diogel dan delerau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith ac ati 1974. Mae'r Ddeddf honno, ynghyd â'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n codi ohoni, yn dweud bod rhaid cynnal asesiad addas a digonol o risg. Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion asesu penodol dan y rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1999 (a elwir yn Rheoliadau Rheoli o hyn ymlaen) a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Oherwydd eu natur eang, gall y dyletswyddau dan y Rheoliadau Rheoli orgyffwrdd gyda rheoliadau eraill. Os oes gorgyffwrdd o'r fath, bydd cydymffurfio gyda'r rheoliadau mwy penodol fel arfer yn ddigon i gydymffurfio gydag unrhyw ddyletswydd gyfatebol yn y Rheoliadau Rheoli e.e. yn unol â'r rheoliadau COSHH, mae'n rhaid cynnal asesiadau os oes risg i iechyd o fod yn agored i sylweddau arbennig. Ni fyddai'n rhaid ailadrodd asesiad o'r fath wedyn i bwrpas y Rheoliadau Rheoli.

## 2. Dyletswyddau dan y Rheoliadau

Yn unol â'r Rheoliadau Rheoli, rhaid i gyflogwyr gynnal asesiadau o'r risgiau a achosir gan eu gwaith, a hynny er mwyn nodi'r mesurau y mae'n rhaid iddynt eu sefydlu i gydymffurfio gyda'u dyletswyddau dan y gyfraith iechyd a diogelwch. Rhaid i'r asesiadau fod yn eang a chynhwysfawr o ran y sylw a roddir i leoliadau, gweithgareddau a ffynonellau eraill o beryglon. Maent yn rhoi dyletswydd arnoch i asesu'r holl risgiau yn y lle gwaith.

Er bod y Rheoliadau Rheoli yn golygu bod rhaid asesu'r holl risgiau y mae'r gweithwyr a phobl eraill yn agored iddynt, mae rheoliadau eraill hefyd sy'n nodi bod rhaid cynnal asesiadau penodol e.e. :-

- Rheoliadau Codi a Chario Pwysau 1992 - rhaid cynnal asesiad os nad oes modd osgoi perygl a gyfyd yn sgil gweithgareddau codi a chario pwysau;
- Yn ôl Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, rhaid cynnal asesiadau ar yr holl sylweddau a ddefnyddir yn y lle gwaith/ysgol;
- Yn unol â'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1999 (PUWER) rhaid cynnal asesiad o'r holl offer gwaith a all fod yn risg i iechyd a diogelwch y rheini sy'n eu gweithredu ac eraill y gallant gael effaith arnynt.

Lle cynhaliwyd un asesiad yn unol â Rheoliadau Arbennig, nid oes angen cynnal asesiad pellach dan y Rheoliadau Rheoli.

## 3. Camau Ataliol yn y Lle Gwaith

Rhaid gweld asesiadau risg fel proses barhaus ac, o'r herwydd bydd rhaid eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

Rhaid i aseswyr adrannol / adeiniau sicrhau, pan fônt yn cynnal y broses hon, eu bod yn ymgynghori'n llawn gyda'r partïon perthnasol, yn arbennig yr aelodau hynny o'r staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgareddau sy'n cael eu hasesu yn ogystal â chynrychiolwyr gweithwyr / cynrychiolwyr diogelwch fel sy'n briodol.

Lle nodwyd risgiau sylweddol a lle mae angen cymryd rhagor o fesurau i ostwng risgiau ymhellach, rhaid sefydlu cynlluniau gweithredu sy'n manylu ar y mesurau ataliol a gwarchodol a weithredir i ostwng neu i reoli risgiau o fewn amserlen benodol.

Rhaid cofnodi unrhyw gasgliadau arwyddocaol sy'n codi o asesiadau a rhoi gwybod amdanynt i'r holl weithwyr perthnasol fel sy'n briodol.

#### **4. Cynnal Asesiad Risg**

Wrth gynnal asesiad risg:-

Mae perygl yn rhywbeth a chanddo'r potensial i achosi niwed i:

- Pobl;
- Y sefydliad (cyllid ac enw da);
- Yr amgylchedd (llygredd a defnydd aneffeithiol o adnoddau).

Risg yw'r tebygolrwydd - uchel, canolig neu isel - y gall rhywun gael eu hanafu gan y peryglon hyn a pheryglon eraill, ynghyd ag arwydd o ba mor ddifrifol y gall y niwed fod.

Mae'r broses asesu risg yn cynnwys dadansoddi risg gan ddefnyddio Matrics Sgorio'r Awdurdod. Trwy fapio'r tebygolrwydd (y tebygolrwydd o ganlyniad neu amlder y canlyniad) yn erbyn y canlyniad (y canlyniad neu'r effaith) gellir rhoi sgôr i'r risg honno.

Rhaid asesu risgiau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac onid oes tystiolaeth, ar y cyngor gorau sydd ar gael. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i chi efallai ofyn am gymorth priodol a pherthnasol gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

#### **Cam 1: Nodi'r peryglon**

Mae tri phrif faes y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth nodi peryglon:

**1) Arferion** - edrych ar y gweithgareddau ac adolygu unrhyw drefniadau/systemau gweithio diogel sydd eisoes wedi eu sefydlu. Nodi beth a allai achosi niwed yn y gweithgareddau. A yw'r gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn lleoedd anarferol e.e. ar uchder neu gyda'r nos; ydi'r gweithgaredd yn golygu gwneud yr un peth dro ar ôl tro ac ati? Ymgynghorwch gyda'r rheini sy'n gwneud y gwaith - efallai eu bod nhw wedi nodi peryglon nad ydynt yn amlwg ar yr olwg gyntaf.

**2) Offer** - fel rhan o'r gweithgaredd, ystyriwch pa offer neu sylweddau sy'n cael eu defnyddio. Nodwch y peryglon posibil/gwirioneddol sy'n gysylltiedig â'r

offer/sylweddau a ddefnyddir yn y lle gwaith. Ydi'r offer yn gwneud sŵn gormodol/yn dirgrynu'n ormodol; a oes unrhyw allyriadau? Gall cyfarwyddiadau gan wneuthurwyr neu daflenni data fod o gymorth i nodi peryglon.

**3)** Yr amgylchedd – ydi amodau'r amgylchedd lleol yn foddhaol ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud?

Mae dwy ffordd o nodi peryglon. Un yw dadansoddi'r mathau o waith sy'n cael ei wneud ac un arall yw cynhyrchu rhestr o bynciau perthnasol a chynnal asesiadau risg ar gyfer pob un ohonynt.

### **Cam 2: Penderfynu pwy all gael eu niweidio a sut.**

Rhaid rhoi sylw arbennig i'r grwpiau isod:-

- Mamau newydd a beichiog;
- Pobl ifanc (dan 18);
- Gweithwyr nos;
- Pobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain;
- Gweithwyr gydag anabledau.

Yn ogystal, rhaid i chi ystyried pawb arall a all gael eu heffeithio gan y gweithgareddau neu'r amgylchiadau e.e.

- Ymwelwyr/y cyhoedd;
- Contractwyr;
- Staff danfon nwyddau;
- Staff domestig;
- Disgyblion;
- Defnyddwyr gwasanaeth.

Gall ystadegau damweiniau a chofnodiadau salwch hefyd fod o gymorth i nodi peryglon ac/neu nodi grwpiau penodol o bobl sy'n wynebu risg.

Unwaith y byddwch wedi nodi pwy sydd mewn perygl, ystyriwch sut maent yn agored i'r peryglon perthnasol a nodwyd. Nodwch dan ba amgylchiadau y mae'r risg yn digwydd e.e. arferol neu anarferol; gwyro oddi wrth drefniadau arferol neu sefyllfa argyfwng fel sylweddau peryglus yn gollwng.

### **Cam 3: Asesu risgiau a phenderfynu ar gamau rhagofalus (mesurau rheoli)**

Dylai'r ffurflen asesu risg awdurdodau yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Mae copi o'r ffurflen ar gael i'w llwytho i lawr yn electronig ar y tudalennau lechyd a Diogelwch mewnwyd ar Monitro ac mae'n ymddangos yn yr atodiad (Atodiad 3).

Mae angen i chi yn awr ystyried y perygl/perylon yr ydych wedi ei/eu disgrifio ac nad oes trefniadau rheoli ar eu cyfer. Dylech gymryd i ystyried:

- Beth, yn eich barn chi, yw'r tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd?

- Beth fyddai effaith digwyddiad o'r fath?

Unwaith yr ydych wedi gwneud asesiad cychwynnol o risg, gellir cymryd i ystyriaeth y mesurau rheoli sydd wedi eu sefydlu.

Mae Rhan 2 y ffurflen asesu risg i'w defnyddio i chi restru unrhyw fesurau rheoli sydd eisoes wedi eu sefydlu e.e:

- Offer arbenigol;
- Arwyddion a signalau diogelwch;
- Polisiâu a threfniadau;
- Systemau gweithio diogel – gan gynnwys Caniatadau i Weithio
- Hyfforddiant, cyfarwyddiadau a goruchwyliaeth
- Goruchwyllo iechyd.

Ar ôl ystyried y mesurau rheoli sydd wedi eu sefydlu, mae'n rhaid asesu pa mor effeithiol yw'r mesurau hynny wrth ystyried maint y risg sydd ar ôl h.y. a yw'r mesurau yn rheoli'r risgiau yn llwyr neu i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol.

**O.N.** Mae'r ymadrodd "i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol" yn amod cyfreithiol sy'n sail ar gyfer bron i bob un o'r dyletswyddau cyffredinol dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1974. Mae'n caniatáu taro cydbwysedd rhwng cost y camau a fwriedir (o ran arian, amser ac anghyfleuster) a maint y risg sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa dan sylw.

Onid yw'r mesurau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ddigonol neu onid oes mesurau rheoli o gwbl, yna mae'n rhaid nodi ffordd o ostwng y risg. Gan ddechrau gyda'r risgiau fwyaf eithafol neu'r risg fwyaf, dylid dilyn y drefn isod:

- **Cael gwared** – a oes modd cael gwared ar y risg. Oes angen i ni wneud hyn? A oes modd i ni ei wneud mewn ffordd wahanol sy'n cael gwared ar y risg neu sy'n ei gostwng?
- **Newid** - a oes modd defnyddio cynnyrch gwahanol neu wneud y gwaith mewn ffordd wahanol sy'n llai peryglus?
- **Rheoli/diogelu** - a oes unrhyw ffordd o reoli'r perygl e.e. rhoi offer swllyd mewn bocs acwstig. A oes angen cyflwyno gardiau (ffisegol, electronig neu bellter) e.e. rhoi gard electronig ar offer peryglus a fydd yn rhwystro'r offer rhag gweithio onid yw'r gard yn gwbl ddiogel?
- **Tynnu'r gweithwyr oddi wrth y risg** - oes modd tynnu'r gweithwyr oddi wrth y risg? E.e. oes modd i'r risg fod mewn un ystafell a'r gweithiwr yn rhedeg y broses o banel mewn ystafell arall neu a oes modd darparu sgriniau ac ati.
- **Sicrhau bod gweithwyr yn llai agored i'r perygl** - gellir gwneud hynny trwy newid dulliau ac/neu batrymau gweithio e.e. gostwng gwaith ailadroddus, sicrhau gwyliau digonol, darparu mwy o weithwyr ar gyfer y gwaith, cyflwyno trefniadau rota.

- **Defnyddio Offer Gwarchod Personol** - dylid ystyried hyn pan fo popeth arall wedi methu a hynny er mwyn rheoli unrhyw risg weddilliol na ellir cael gwared arni trwy unrhyw un o'r dulliau uchod. Bydd hyn yn cynnwys darparu mygydau, menig, ffedogau, esgidiau gyda blaenau dur, hetiau caled ac ati.

Dylid yn ogystal ystyried rhoi gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant ynghyd â chamau goruchwyllo. Yn aml, bydd hyfforddiant a gwybodaeth dda yn ddigonol ar gyfer risgiau bychan ond cofiwch y dylid adolygu lefelau goruchwyllo pan gyflogir pobl ifanc/ ddibrofiad neu pan fo trosiant staff yn uchel.

Unwaith y byddwch wedi nodi pa fesurau rheoli sydd raid wrthynt i ostwng y risg i lefel dderbyniol, dylid cofnodi'r rhain ar y ffurflen asesu risg.

#### **Cam 4: Cofnodi eich casgliadau a'u gweithredu**

Dylai pob asesiad risg yn cael ei gofnodi ar y ffurflen asesu risg Awdurdodau, sy'n ymddangos yn yr atodiad (Atodiad 3), a'r canfyddiadau gweithredu arnynt.

Mae hyn yn golygu gweithredu ar ganlyniadau'r asesiad risg – sy'n arwain at le gwaith iachach a diogelach, llai o absenoldeb salwch ac, yn y pen draw, gyflawni amcanion yr awdurdod.

Os bydd angen cymryd rhagor o gamau, dylid cofnodi'r rhain ynghyd ag amserlen realistig ar gyfer eu gweithredu ac sy'n gydnaws a lefel y risg.

#### **Cam 5: Adolygu eich asesiad a'ch diweddariad os oes angen**

Rhaid i risgiau cael eu hadolygu'n rheolaidd. Os bu'n ofynnol i gael camau pellach, yna bydd yr adolygiad yn helpu i sefydlu os yw'r camau wedi'u cymryd yn ddigonol ac os felly, faint o gynnydd sydd wedi'i wneud. Os oes angen unrhyw gamau pellach, yna dylai'r asesiad risg cael ei adolygu ar ôl 12 mis.

Os oes newidiadau i ffyrdd o weithio a / neu offer neu sylweddau newydd yn cael eu cyflwyno i'r gweithle yna rhaid i'r asesiadau risg hefyd cael ei adolygu ar yr adegau hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon newydd neu newidiadau i risgiau blaenorol yn cael eu nodi.

#### **Rhagor o Wybodaeth**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar estyniad 01248 752820.

## Atodiad 1

### Sgorio'r Risgiau

#### Trefn Rhifiadol:

Mae dau rhan i asesu lefel eich risg.

#### **Rhan 1 Risg Dechreuol (RD)**

Mae RD yn deillio o'ch asesiad o debygolrwydd a llymder.

Tebygolrwydd = ydi o am ddigwydd

Llymder = os mae'n digwydd, pa mor ddrwg fydd y canlyniad.

ON - RD yw'r lefel a gyrhaeddir ar ôl gweithredu ar y mesurau rheoli sy'n bodoli'n bresennol.

#### **Rhan 2 - Risg Gweddilliol (RG)**

Hwn yw'r risg a gyrhaeddir ar ôl penderfynu os oes mwy a allai cael ei wneud i lleihau'r risg drwy weithredu ar mesurau rheoli ychwanegol. Mae angen cyfrifo Tebygolrwydd x Llymder i arfarnu hyn.

#### Tabl Asesu Rhifyddol

Tebygolrwydd (pa mor debygol ydi'r digwyddiad o ddigwydd) /	
Will it happen	3
Could it happen	2
Unlikely to happen	1

Difrifoldeb (canlyniad mwyaf tebygol y ddamwain)	
Death or serious injury	3
Major injury/property damage	2
Minor injury/minor damage	1



**Matrics Asesu Rhifyddol**

Llymder	Tebygolrwydd			
	X	1	2	3
1	1	1	2	3
2	2	2	4	6
3	3	3	6	9

Lefel y Risg = Llymder x Tebygolrwydd	
	<b>IseI</b> = Gweithrediad ymhen 90 diwrnod
	<b>Canolig</b> = Gweithrediad ymhen 30 diwrnod
	<b>Uchel/High</b> = Gweithrediad Presennol

## Atodiad 2

**SYLWER – Nid yw'r rhestr hon yn derfynol, efallai y bydd peryglon eraill yn eich lle gweithio sydd ddim wedi cael eu rhestru yma a mathau eraill o niwed yn gysylltiedig gyda'r peryglon hynny.**

<b>CATEGORI PERYGL / HAZARD CATEGORY</b>	<b>ENGHREIFFTIAU O'R MATH O NIWED (ac eithrio difrod i eiddo) EXAMPLES OF TYPE OF HARM (Excludes property damage)</b>
<b>Llithro, Baglu neu Syrthio</b>	Anaf
<b>Gweithio mewn llefydd uchel</b>	Pobl neu bethau yn syrthio
<b>Rhwystrau</b>	Taro yn eu herbyn, baglu drostynt, blocio diangfeydd argyfwng
<b>Stacio/Storio</b>	Deunyddiau'n syrthio, anaf i'r cefn, syrthio wrth geisio codi'r deunyddiau sydd wedi syrthio
<b>Tymheredd</b>	Straen gwres, llosg haul, melanoma, hypothermia
<b>Awyriant a Lleithder</b>	Syndrom adeilad afiach, cyfog, blinder, llygaid yn sych neu'n cosi
<b>Trin a chodi pwysau</b>	Anaf i'r cefn, afiechydon cyhyrgerbydol, hernia, anafiadau eraill
<b>Gweithio gydag Offer Sgrîn Arddangos</b>	Afiechydon cyhyrgerbydol, straen llygaid neu llygaid dolurus, cur pen a methu gweld yn iawn, blinder, straen galwedigaethol
<b>Symudiadau Ailadroddus</b>	Afiechydon cyhyrgerbydol
<b>Tân a ffrwydriad</b>	Llosgiadau, effeithiau anadlu mwg, bod yn agored i sylweddau peryglus a nwyon gwenwynig, trawma seicolegol
<b>Sylweddau cemegol peryglus</b> Eu defnyddio, eu storio a chael gwared ohonynt	Effeithiau difrifol a chronig ar iechyd, alergeddau (sensiteiddiad)
<b>Sylweddau biolegol</b>	Clefydau dynol a milheintiol (heintiau sy'n cael eu trosglwyddo i bobl drwy anifeiliaid), alergeddau (sensiteiddiad), feirysau sy'n cael eu cario yn y gwaed
<b>Profiad gwaith/pobl ifanc</b>	Amrywiol gan ddibynnu ar y gwaith a lefel y diffyg profiad neu anaeddfedrwydd
<b>Sylweddau fflamadwy*</b>	Ffrwydriad tân, arllwysiad thermal
<b>Gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain</b>	Anaf, trais neu ymosodiad geiriol
<b>Straen Galwedigaethol</b>	Pryder, iselder neu broblemau iechyd meddwl eraill. Symptomau corfforol, ymddygiad neu waeledd yn gysylltiedig â straen
<b>Ymosodiad treisgar neu eiriol</b>	Anaf, pryder a straen, straen yn dilyn profiad trawmatig
<b>Gweithio gydag anifeiliaid</b>	Anafiadau – brathiad, pigiad, sathru, cicio ac ati. Effaith niweidiol ar iechyd, clefydau milheintiol, alergeddau
<b>Mecanyddol (peiriannau)</b>	Mathru gan, effaith neu gyswllt gyda rhannau sy'n symud (torri, rhwbio neu grafu), mynd yn sownd mewn partiau sy'n troi, niwed yn sgil ffrydiad
<b>Cerbydau a gyrru</b>	Damweiniau ffordd – anafiadau i'r gyrrwr, cyd-deithwyr neu drydydd partion, blinder, afiechydon cyhyrgerbydol oherwydd ystum gwael wrth yrru
<b>Trydanol</b>	Sioc/llosg/tân/ffrwydriad, ffynhonnell tanio
<b>Tyrfaoedd mawr o bobl</b>	Mathru, personau'n cael trapio mewn argyfwng, blinder gwres, tân
<b>Trin Bwyd</b>	Gwenwyn bwyd, croes-heintiad
<b>Contractwyr</b>	Anafiadau a salwch a ddioddefir gan weithwyr oherwydd gwaith contractwyr neu a ddioddefir gan weithwyr y contractwyr yn yr adeilad lle maent yn gwneud y gwaith
<b>Gweithio allan o oriau/gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain</b>	Amrywiol gan ddibynnu ar y gwaith gan gynnwys anallu i alw am gymorth mewn argyfwng, efallai'n fwy agored i ymosodiad
<b>Gwaith yn yr awyr agored</b>	Llosg haul, cancr y croed, hypothermia, strôc gwres, brathladau a phigiadau, cyswllt gyda phlanhigion gwenwynig, tetanws o'r pridd, damweiniau ffordd
<b>Tripiâu maes a gwaith maes</b>	Amrywiol gan ddibynnu ar y gweithgaredd a'r lleoliad – yn cynnwys heintiau trofannol, perygl o ymosodiad terfysgol a herwgipio mewn rhai ardaloedd
<b>Gweithio mewn mannau cyhoeddus</b>	Anafiadau ac afiechyd ymysg y cyhoedd
<b>Llefydd cyfyng</b>	Mygu, ffrwydriad, gwenwyno
<b>Gweithio dros neu yn ymyl hylifau, grawn ac ati</b>	Syrthio i sylweddau, boddi, gwenwyno, mygu ac ati
<b>Pwysedd ac ynni wedi ei storio</b>	Rhyddhau ynni - ffrwydriad, deunyddiau'n fflio/yn syrthio
<b>Thermal</b>	Llosgiadau / tanau / sgaldiadau / ewinhew

<b>Swm</b>	Colli clyw, tinnitus, anallu i glywed larymau tân ac ati
<b>Dirgryniad</b>	Syndrom Cryniant Llaw-Braich, effeithiau ar y corff cyfan
<b>Ymbelydredd heb ei ïoneiddio</b>	Llosgiadau, effeithiau eraill ar iechyd o bosib (heb eu profi) e.e. ffonau symudol
<b>Goleuni (Hefyd, gall goleuo gwael gynyddu'r risg o ddod i gyswllt â pheryglon eraill)</b>	Straen llygaid, 'arc eye' a chataractau

Tasg/ ardal i'w asesu/ Task/area to be assessed:											
Cyfadran/ Directorate		Adran/ Department			Rhif adnabod yr asesiad risg/ Risk assessment ID no						
Swyddog Aseu/ Assessing Officer		Dyddiad/Date: .....			Dyddiad Adolygu/Review Date: .....		Lleoliad/ Location				
Peryglon Sylweddol/ Significant Hazards	Pwy sy'n gallu cael eu brifo a sut? Who might be harmed & how?	Sut mae'r risg yn cael ei reoli ar hyn o bryd? How is the risk currently controlled?	Lefel Risg Dechreuol/ Initial Risk Level			Pa gweithrediad sydd angen i lleihau y risg ymhellach? What action is required to further reduce the risk?	Lefelau risg gweddilliol ar ôl systemau rheolaeth? Residual risk level after controls?			Gweith- rediad gan Bwy/ Action By Whom	Dyddiad Terfyn/ Deadline
			Tebygoliaeth Likelihood	Llymder Severity	Lefel o Risg Risk Level		Tebygoliaeth Likelihood	Llymder Severity	Lefel o Risg Risk Level		